Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn nodi sut fydd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru trwy ei weithgareddau beunyddiol. Mae gennym gyswllt uniongyrchol gyda chanran uchel o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg, ac mae'r daflen hon yn crynhoi'r gwasanaethau iaith Gymraeg a ddarparwn.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi gweithredu'r Cynllun trwy fabwysiadu'r egwyddorion canlynol:

- Cydnabyddir fod aelodau o'r cyhoedd yn medru mynegi eu hanghenion a'u barnau'n well yn eu dewis iaith.
- Rydym yn cydnabod bod croesawu'r cyhoedd i ddefnyddio eu dewis iaith yn fater o arfer da a gofal y cwsmer.
- Derbynnir bod gan ein cwsmeriaid, yn ysbryd y cydraddoldeb a fynegwyd yn Neddf yr Iaith Gymraeg, yr hawl i ddewis p'un ai eu bod yn dymuno cyfathrebu â ni yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Cysylltu â'r Gwasanaeth

Mae croeso i'r cyhoedd i gysylltu â'r Gwasanaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg, p'un ai bod hynny trwy gyfrwng gohebiaeth ysgrifenedig, cyfathrebu dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

Llythyrau ac e-byst

- Bydd yr holl lythyrau safonol a ddosberthir i'r cyhoedd yn ddwyieithog
- Bydd llythyrau ac e-byst a dderbyniwyd gan yr Awdurdod yn Gymraeg yn cael eu cydnabod a'u hateb yn Gymraeg, gyda'r un amserau ymateb â gohebiaeth Saesneg.

Cyswllt dros y ffôn

Mae'r Gwasanaeth yn croesawu galwadau ffôn trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae gan y Gwasanaeth rif cyswllt unigol ar gyfer cyfathrebu dros y ffôn, ac mae'r gweithredyddion ffôn yn cynnig gwasanaeth cwbl ddwyieithog.

Wyneb yn Wyneb

- Nid yw ein gwasanaeth dwyieithog yn gorffen mewn derbynfeydd nac mewn cyfarfodydd a chynadleddau ffurfiol - fe'i cynigir ar draws ein gwasanaethau.
- Bydd y gwasanaeth cyngor ar Ddiogelwch Rhag Tân yn y Gymuned ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- Bydd ymweliadau safle er dibenion archwilio ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Delwedd Gorfforaethol

Mae gan y Gwasanaeth logo corfforaethol dwyieithog. Bydd yr holl offer ysgrifennu (yn cynnwys papur pennawd, cardiau busnes, bathodynnau adnabod, cyhoeddiadau, nwyddau a deunyddiau eraill) yn arddangos y logo a gwybodaeth safonol ddwyieithog o'r un maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

Mae'r hyn a baratown yn ddwyieithog yn cynnwys:

- Deunydd marchnata, hysbysebu, cyhoeddusrwydd neu hyrwyddol
- Dangosyddion ac arddangosfeydd
- Pamffledi, llyfrynnau, cylchlythyrau
- Pob arwydd ar eiddo a cherbydau'r Gwasanaeth
- Hysbysiadau a hysbysebion mewn papurau newydd, cyfnodolion a newyddiaduron am resymau statudol ac anstatudol
- Deunydd ymgynghori

Bydd unrhyw beth a gynhyrchir gan y Gwasanaeth ac a anelir at drigolion, busnesau, ymwelwyr a'r cyhoedd yn cael eu hystyried eu bod yn unol â'r cylch gwaith hwn.

Cyfarfodydd Cyhoeddus

Bydd croeso i aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno mynychu cyfarfodydd cyhoeddus a drefnir gan y Gwasanaeth i ddefnyddio'r Gymraeg. Dylent hysbysu'r trefnwyr o'u dewis iaith o flaen llaw, er mwyn iddynt fedru gwneud trefniadau priodol.

- Bydd y Cadeirydd yn mynd ati'n weithgar i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus, a bydd yn croesawu cyfraniadau yn y Gymraeg neu yn Saesneg.
- Byddwn yn darparu cyfleusterau cyfieithu i siaradwyr di-gymraeg, yn ôl yr angen.
- Bydd yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Bydd yr holl wybodaeth ysgrifenedig a ddefnyddir mewn cyfarfod, megis deunydd cyflwyno gweledol, taflenni printiedig neu benawdau arddangosfeydd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Swyddi Hanfodol a Dymunol

Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod yr angen i gyflogi nifer digonol o weithwyr sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig o ran y gweithwyr sy'n dod i gysylltiad yn rheolaidd â chwsmeriaid.

Mae'r Gwasanaeth yn ymrwymedig i ganfod y lleoliadau, y rolau a'r swyddi hynny ble mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol ac i sicrhau bod pobl yn cael eu cyflogi yn unol â hynny.

Darparu'r Gwasanaeth

- Wrth i ni gynllunio a ffurfio polisïau neu gynlluniau newydd, byddwn yn asesu'r canlyniadau ieithyddol, i sicrhau eu bod yn diwallu'r ymrwymiadau a wnaed yn ein Cynllun.
- Rydym yn anelu at ddarparu safon uchel o wasanaeth a gofal y cwsmer ym mhob agwedd o'n gwaith, yn unol â'r ymrwymiadau a wnaed yn ein Cynllun.
- Bydd gofynion y Cynllun yn cael eu gweithredu gyda sensitifrwydd ac anogaeth bositif.

Monitro a Chydymffurfio

Bydd y Gwasanaeth yn monitro gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg trwy gyfrwng y mecanweithiau canlynol:

- Adolygu Cynllun Gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg (CGCIG) y Gwasanaeth yn gyson;
- Cynllunio gwelliannau blynyddol, yn cynnwys cyflawni targedau a chrynodeb o gyflawni'r Cynllun Iaith Gymraeg;
- Monitro gan y Swyddog Iaith Gymraeg a Llywodraethu;
- Monitro cwynion a sylwadau eraill gan y cyhoedd;
- Adroddiad blynyddol i'r Bwrdd Polisi mewnol, yr Awdurdod Tân a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Os hoffech weld copi llawn o'r Cynllun Iaith Gymraeg, ewch i wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru www.mawwfire.gov.uk, neu os hoffech gopi caled neu os oes gennych unrhyw sylwadau, ysgrifennwch at

Swyddog Iaith Gymraeg
Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Heol Llwyn Pisgwydd
Caerfyrddin
SA31 1SP
Ffôn: 0370 6060699

Canllaw i'n Cynllun Iaith Gymraeg

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Gwasanaeth Tân Ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales Fire and Rescue Service
www.mawwfire.gov.uk

GWASANAETH T'N AC ACHUB
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE